Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rheoli'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

## Rhoi Argymhellion Archwilio Blaenorol ar Waith

Mawrth 2026



Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd dan adran 145A Deddf Llywodraeth Cymru (1998).

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

**Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon**

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Ciplun archwiliad 4

Barn yr Archwilydd Cyffredinol 6

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 7

Ein canfyddiadau 8

Argymhellion 43

## Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith 46

2 Gwybodaeth ariannol 48

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn 54

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Yn 2019, fe gyhoeddom ni Adolygiad o’r Gronfa Gofal Integredig. Fe sefydlodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Gofal Integredig yn 2014 i alluogi partneriaethau rhanbarthol i integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a thai yn well.

2 Roedd yr adolygiad yn disgrifio effaith gadarnhaol y Gronfa Gofal Integredig ar wella integreiddio a gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, fe wnaeth hefyd adnabod gwendidau yn y ffordd yr oedd y gronfa flynyddol yn cael ei rheoli. Fe wnaeth chwe argymhelliad i Lywodraeth Cymru a dderbyniwyd yn llawn ganddi.

3 Ym mis Ebrill 2022, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddisodli’r Gronfa Gofal Integredig ynghyd â’i Chronfa Trawsnewid â’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Fe ddisodlwyd yr elfennau cyfalaf â Chronfa Tai â Gofal newydd.

4 Mae’r adroddiad hwn yn archwilio i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ein hargymhellion ar waith trwy’r gwaith i gyflwyno’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ac i raddau llai helaeth, trwy’r Gronfa Tai â Gofal.

## Pam fod hyn yn bwysig

5 Mae’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn rhan allweddol o ddull Llywodraeth Cymru o wireddu ei gweledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a nodwyd yn ei strategaeth yn 2018, Cymru Iachach. Trwy’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a’r Gronfa Tai â Gofal, ynghyd â’r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso mae’n amcanu at wreiddio dull ataliol o ymdrin ag iechyd a llesiant y boblogaeth, a rhoi cymorth iechyd a gofal di-dor.

6 Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yw prif gyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi ymyrryd yn gynnar, integreiddio, a gweithio mewn partneriaeth trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Cronfa bum mlynedd ydyw sy’n rhedeg o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2027, gyda chyllideb flynyddol o oddeutu £146 miliwn.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

7 Mae Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru'n cefnogi gweithio rhanbarthol ac yn datblygu modelau gofal di-dor. A hithau bellach yn ei phedwaredd flwyddyn, mae'r gronfa wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau llawer o bobl. Yn 2024-25, fe gynorthwyodd dros 180,000 o bobl i atal eu hanghenion iechyd a gofal rhag dwysáu.

8 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pump o'n chwe argymhelliad blaenorol ar waith yn llawn ac wedi cwblhau'r un sy'n weddill yn rhannol. Mae wedi gwella amseroldeb ei phrosesau penderfynu a gwybodaeth fonitro, wedi cryfhau ei goruchwyliaeth ac wedi cynorthwyo Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i rannu gwersi a ddysgwyd. Fodd bynnag, canfuom rai mân fylchau yng ngoruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ar y modd y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwario'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol. Canfuom hefyd fod rhai rhwydweithiau dysgu ar y cyd yn fwy effeithiol na'i gilydd.

9 Er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth Cymru i symleiddio trefniadau ariannu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae'r trefniadau hynny'n dal yn gymhleth ac fe ellid eu hintegreiddio'n well. Ceir hefyd bryderon ynghylch cyllid tymor hwy i ddisodli rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn 2027, yn enwedig gan bod cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhai gwasanaethau sydd bellach wedi'u gwreiddio yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

10 Fe adnabuom wendidau yng ngoruchwyliaeth sefydliadau statudol ar weithgareddau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sut y mae cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio. Byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod goruchwyliaeth briodol yn digwydd. Gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy hefyd i'w sicrhau ei hun bod y cyrff hynny'n cydymffurfio â'i chanllawiau ynghylch goruchwyliaeth.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

11 Rydym yn ailgyflwyno dau o'n hargymhellion blaenorol, a ddiweddarwyd i adlewyrchu'r cyd-destun cyflawni cyfredol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar symleiddio a chysoni ffrydiau ariannu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymhellach a sicrhau craffu priodol ar benderfyniadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y sefydliadau statudol rhanbarthol.

12 Rydym hefyd yn gwneud dau argymhelliad newydd i wella ansawdd goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ar wariant Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

# Barn yr Archwilydd Cyffredinol

Mae'n fy nghalonogi i weld bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddais ar y Gronfa Gofal Integredig yn 2019 o ddifrif ac wedi gweithredu ar fy argymhellion. Mae'r adroddiad yn amlwg wedi ysgogi gwelliannau i reoli arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru'n gynyddol yn dyrannu arian trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, felly mae angen iddi barhau i weithio gyda chyrff partneriaeth i sicrhau eu bod yn arfer goruchwyliaeth ar wario'r arian hwnnw'n ddoeth. Gobeithio y bydd y canfyddiadau a'r argymhellion pellach yr wyf wedi'u nodi yn yr adroddiad dilynol hwn yn helpu i siapio'r gwaith pwysig hwnnw yn y dyfodol.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin yn llawn â **5 argymhelliad** o'r adolygiad a gynhaliwyd gennym yn 2019, ac wedi ymdrin yn rhannol â'r un sy'n weddill.

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi'i bwriadu i greu newid cynaliadwy mewn gwasanaethau trwy **6 model gofal integredig cenedlaethol.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo oddeutu **£146 miliwn** yn flynyddol am bum mlynedd trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Rhwng 2022-23 a 2024-25, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi gwario **£436.6 miliwn** o gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Darparodd sefydliadau partner **£174.2 miliwn** yn ychwanegol mewn cyllid cyfatebol dros dair blynedd gyntaf y gronfa.

Rhwng 2022-23 a 2024-25, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi gwario **£125 miliwn** o gyllid Tai â Gofal.

Yn 2024-25, defnyddiodd **747,953** o bobl brosiectau a ariannwyd gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol*.

Fe wnaeth y cymorth hwnnw atal lefelau o angen rhag dwysáu ar gyfer **181,922** o bobl.

Nodyn * Gall pobl fod wedi cael eu cyfrif fwy nag unwaith os gwnaethant ddefnyddio mwy nag un prosiect.

# Ein canfyddiadau

## Dyrannu cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

### Mae Llywodraeth Cymru'n amlwg wedi dylunio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fel ei bod yn cefnogi cynllunio tymor hwy ac yn lleihau'r arfer o wneud penderfyniadau'n hwyr i'r eithaf

13 Yn 2019, canfu ein hadroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig fod disgwyliadau newidiol Llywodraeth Cymru a materion gydag amseroldeb prosesau dyrannu cyllid yn rhwystr i gyflawni rhanbarthol. Dengys **Arddangosyn 1** fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ein hargymhelliad i wella amseroldeb canllawiau a phrosesau penderfynu ar waith yn llawn.

**Arddangosyn 1: rhoi argymhelliad 1 o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2019 ar waith gan Lywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 1**

Fe wnaethom awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru:

- ystyried effaith cyhoeddi canllawiau'n gynharach ar amseroldeb penderfyniadau ariannu prosiectau (**wedi'i gwblhau**); ac
- ystyried a all wneud unrhyw welliannau eraill i'r broses dyrannu cyllid (**wedi'i gwblha**u).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Datblygu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

14 Mae Llywodraeth Cymru yn amlwg wedi dysgu o'n hadolygiad ni a gwerthusiadau cenedlaethol o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid i ddatblygu rhaglen ei Chronfa Integreiddio Rhanbarthol. Enghraifft allweddol o'r dysgu hwnnw yw'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi dylunio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fel rhaglen bum mlynedd i gefnogi cynllunio tymor hwy a darparu mwy o sicrwydd ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.[1] Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ehangu rhychwant oes y Gronfa Tai â Gofal hefyd i gyd-fynd â thymor pum mlynedd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

15 Mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y siaradom ni gyda hwy'n croesawu rhychwant oes pum mlynedd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Fodd bynnag, dywedodd un aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a ymatebodd i'n harolwg ei fod yn gyfyngol, tra bo eraill o'r farn nad oedd pum mlynedd yn ddigon hir:

"Wrth gwrs gall cynlluniau 5 mlynedd ddod ag ymdeimlad o barhad a sefydlogrwydd ond ceir risg hefyd y byddant yn ein cloi i mewn i wariant sy'n rhy anodd i'w adolygu a'i newid, gan ddod ag ymdeimlad o lesgedd a hunanfodlonrwydd.

Ymatebydd i'r arolwg ymhlith aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

"Mae'n ddatblygiad cadarnhaol bod gennym gylch pum mlynedd. Rydym yn gobeithio y bydd hwnnw'n cael ei estyn er mwyn gwneud penderfyniadau tymor canolig yn hytrach na meddwl am y tymor byr.

Ymatebydd i'r arolwg ymhlith aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

"Er mwyn creu partneriaeth aeddfed sy'n gallu mynd ati'n effeithiol i ddatblygu a chyflawni cynlluniau strategol hirdymor sy'n ategu trawsnewid sylfaenol mae angen cyllid a warentir dros y tymor hir.

Ymatebydd i'r arolwg ymhlith aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

1 Fe sefydlwyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac maent yn dwyn ynghyd fyrddau iechyd, awdurdodau lleol, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i ddiwallu anghenion eu hardal o ran gofal a chymorth.

16 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddylunio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fel rhaglen ddysgu i oleuo datblygiad ei System Gofal Cymunedol Integredig, ac mae'r esblygiad o'r Gronfa Gofal Integredig i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac yna'r cynlluniau ar gyfer system ofal sy'n dod i'r amlwg i'w gweld yn glir. Mae'n dal i ddysgu o gyflawni'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol trwy'r cymunedau ymarfer, a chyfres o werthusiadau cenedlaethol trwy gydol y rhaglen.[2] Mae Llywodraeth Cymru'n amcanu at ddefnyddio'r gwerthusiadau i ddatblygu 'glasbrintiau' sy'n nodi modelau gofal cenedlaethol diwygiedig erbyn blwyddyn pump y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (2026-27).

17 Fe weithiodd tîm Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru (tîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol) gydag aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol dros gyfnod o 18 mis i ddatblygu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Roedd rhai o'r aelodau hynny'n beirniadu Llywodraeth Cymru am beidio â rhoi eu hargymhellion i gyd ar waith. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y siaradom ni gyda hwy fod ymgysylltiad cynnar gan Lywodraeth Cymru wedi gosod y sylfeini ar gyfer perthnasoedd gweithio cadarnhaol i gyflawni'r rhaglen.

18 Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i ennyn ymgysylltiad aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth i'r rhaglen esblygu, gan addasu ei threfniadau mewn ymateb i adborth. Er enghraifft, fe gafodd wared ar ei chynlluniau i leihau neu 'dapro' cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol dros amser gan gydnabod bod y partneriaid statudol yn y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei chael hi'n anodd 'prif-ffrydio' prosiectau llwyddiannus a gyllidwyd gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol oherwydd pwysau ariannol. Mae ymgysylltiad cynnar a pharhaus tîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn enghraifft o arfer da o ran cynnwys rhanddeiliaid yn y broses o ddylunio a chyflawni rhaglenni Llywodraeth Cymru.

2 Rhwydweithiau o weithwyr proffesiynol yw cymunedau ymarfer sydd wedi'u bwriadu i rannu gwersi a ddysgwyd a chreu cysylltiadau rhwng rhaglenni cenedlaethol perthnasol gan Lywodraeth Cymru.

## Amseroldeb prosesau penderfynu

19 Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn derfynol ei chanllawiau ynghylch y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ym mis Chwefror 2022, ychydig cyn i'r rhaglen ddechrau ym mis Ebrill. Gofynnodd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno cynigion buddsoddi'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer 2022-23 erbyn diwedd mis Mawrth 2022. Er gwaethaf y ffrâm amser ar gyfer cyhoeddi, roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu'n rheolaidd â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol cyn i'r rhaglen ddechrau ac wedi cytuno pa brosiectau o blith y rhai a arferai gael eu hariannu gan y Gronfa Gofal Integredig ac a oedd yn bodloni meini prawf y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol allai gael eu trosglwyddo i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Fe ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru 2021-22 fel blwyddyn bontio hefyd i alluogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynllunio a gwneud y newidiadau angenrheidiol o'r Gronfa Gofal Integredig i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

20 Er na wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau ynghylch y Gronfa Tai â Gofal tan fis Mai 2022, bu'n gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ymlaen llaw i roi cymorth iddynt gynllunio. Roedd gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynlluniau buddsoddi cyfalaf i reoli prosiectau cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a oedd ar ddod ac yn mynd rhagddynt. Fe wnaeth trefniadau'r cynlluniau buddsoddi cyfalaf barhau pan gyflwynwyd y Gronfa Tai â Gofal i gynnwys prosiectau cyfalaf newydd ac ymrwymiadau presennol y Gronfa Gofal Integredig. Mae **Arddangosion 21 a 22** yn **Atodiad 2** yn nodi gwariant y Gronfa Tai â Gofal dros amser.

21 Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio symleiddio trefniadau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol trwy osgoi gwneud newidiadau i'w chanllawiau ynghylch y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Yn hytrach na diwygio'r canllawiau, fe ysgrifennodd at Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ynglŷn â newidiadau i dapro ym mis Ionawr 2024. Dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn aros am ganlyniad ein hadolygiad ni i ymgorffori newidiadau posibl cyn diweddaru'r canllawiau.

22 Roedd rhai aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo na wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau'n ddigon cynnar i ategu cynllunio effeithiol. O ystyried y camau a gymerodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gwreiddio ei chanllawiau ynghylch y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (gweler **paragraff 19**), gallai ymatebwyr i'r arolwg fod wedi bod yn cyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cronfeydd a ddyrennir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol heblaw am y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Disgrifiodd nifer o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol anawsterau wrth ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cronfeydd eraill, yn enwedig lle'r oedd yn darparu'r cronfeydd hynny ar fyr rybudd (gweler **paragraff 39**).

23 Mae Llywodraeth Cymru'n darparu ymrwymiad cyllid pum mlynedd clir trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae hefyd yn nodi dyraniadau blynyddol bob mis Rhagfyr yn ei llythyrau am gyllideb y GIG at fyrddau iechyd, a ddylai adael Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol heb unrhyw amheuaeth ynghylch eu dyraniadau cyllid. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn anfon llythyrau dyrannu cyllid blynyddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf at Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel mater o ffurfioldeb rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Mae'n cytuno ar drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn rhwng prosiectau mewn cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr cyllid Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

24 Er gwaethaf y trefniadau tymor hwy hynny, mae nifer o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o'r farn bod penderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru'n hwyr. Roedd y mwyafrif (39) o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a ymatebodd i'n harolwg naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf bod Llywodraeth Cymru'n gwneud penderfyniadau ariannu'n ddigon cynnar i ategu cynllunio rhanbarthol effeithiol (**Arddangosyn 2**).[3]

3 Fe wnaeth 63 o Aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gwblhau ein harolwg.

**Arddangosyn 2: nifer yr ymatebwyr i'n harolwg sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae Llywodraeth Cymru'n gwneud penderfyniadau ariannu'n ddigon cynnar i ategu cynllunio rhanbarthol effeithiol'**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru o Aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, 2025

25 Fe ddisgrifiodd rhai o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol brosesau penderfynu araf gan eu partneriaid rhanbarthol yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Dywedodd nifer o aelodau o wahanol Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrthym, er bod gan Lywodraeth Cymru ffrâm amser bum mlynedd, fod prosesau cynllunio Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dilyn cylch blynyddol. Er mai ffurfioldeb ydoedd, dywedodd rhai aelodau nad oedd ar eu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eisiau cadarnhau cyllid ar gyfer prosiectau nes ei fod wedi cael ei lythyr dyrannu gan Lywodraeth Cymru.

## Mae Llywodraeth Cymru'n cynorthwyo Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddefnyddio cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn hyblyg i ddiwallu angen lleol, ond mae cyllid Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod yn fwyfwy cymhleth

26 Yn 2019, fe wnaethom nodi yn ein hadroddiad bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei chael hi'n anodd cysoni anghenion poblogaethau lleol â dyraniadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau poblogaeth a oedd yn cael blaenoriaeth o fewn y Gronfa Gofal Integredig. Ar y pryd, roedd trefniadau ariannu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gymhleth gyda nifer o ffrydiau ariannu byrdymor gan Lywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar yr un grwpiau poblogaeth a oedd yn cael blaenoriaeth. Roedd gan y cronfeydd hynny'n aml feini prawf gwahanol a oedd yn ei gwneud hi'n anodd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu cyfuno i fynd i'r afael ag angen lleol. Dengys **Arddangosyn 3** fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ein hargymhelliad i symleiddio ffrydiau ariannu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar waith yn yn llawn.

**Arddangosyn 3: rhoi argymhelliad 2 o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2019 ar waith gan Lywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 2**

Fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r holl ffrydiau ariannu tymor byr sydd ar gael i bartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a thai, i sicrhau bod ffrydiau ariannu:

- yn lleihau dyblygu i'r eithaf (**wedi'i gwblhau**);
- yn cydweddu â'i gilydd a bod y dyraniadau cyfun ar gyfer grwpiau penodol o bobl yn cydweddu ag anghenion y boblogaeth leol, yn ogystal â meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru (**wedi'i gwblhau**); ac
- yn gallu cael eu cyfuno i fynd i'r afael ag angen lleol (**wedi'i gwblhau**).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

27 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed i symleiddio ffrydiau ariannu o fewn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd. Serch hynny, mae trefniadau ariannu'n dal i fod yn orgymhleth ac mae rhai aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn teimlo'n ddryslyd ynglŷn â'r cwestiwn a yw Llywodraeth Cymru'n dal i bennu dyraniadau dangosol ar gyfer grwpiau poblogaeth sy'n cael blaenoriaeth.

28 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gyd-fynd ag anghenion poblogaethau lleol a meysydd polisi perthnasol. Mae ei chanllawiau ynghylch y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ei gwneud hi'n glir bod rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddangos bod mentrau a gyllidir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn diwallu anghenion pum grŵp flaenoriaeth targed yn y boblogaeth trwy chwe model gofal cenedlaethol (**Arddangosyn 4**).

**Arddangosyn 4: Grwpiau blaenoriaeth a modelau gofal y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol**

## Grwpiau blaenoriaeth

- Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia
- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- Pobl ag anghenion iechyd a llesiant emosiynol a meddyliol
- Gofalwyr di-dâl
- Pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygol

## Modelau gofal



Gofal yn y gymuned: **Atal a chydlynu cymunedol**



Gofal yn y gymuned: Gofal cymhleth **yn nes at adref**



Hybu **iechyd** a **llesiant emosiynol da**



Cynorthwyo teuluoedd i aros **gyda'i gilydd yn ddiogel**, a chymorth therapiwtig ar gyfer **plant sydd wedi bod mewn gofal**



**Gartref** o'r ysbyty



Datrysiadau **sy'n seiliedig ar lety**

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

29 Nid yw Llywodraeth Cymru'n pennu dyraniadau dangosol ar gyfer y grwpiau poblogaeth sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer y brif Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ond mae'n neilltuo arian penodol wedi'i glustnodi o fewn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer grwpiau neu wasanaethau allweddol. Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol drosglwyddo arian o un grŵp poblogaeth sy'n cael blaenoriaeth i un arall gyda chytundeb swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol hefyd yn cynnwys cronfa seilwaith rhanbarthol flynyddol wedi'i chlustnodi o £750,000 ar gyfer costau rhedeg (**Arddangosyn 5**).

### Arddangosyn 5: strwythur y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

#### Cronfa Genedlaethol Wedi'i Chlustnodi

**I ariannu:**

- Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig
- Prosiectau dementia
- Gwasanaethau asesu cof
- Ymgysylltu ynghylch rhyddhau o'r ysbyty â gofalwyr di-dâl
- Egwylion byr ar gyfer gofalwyr

**Cyllid**

Cyllid o **100%** gan Lywodraeth Cymru

#### Cronfa Seilwaith Rhanbarthol

**I ariannu:**

- Seilwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i ategu eu trefniadau gweithio rhanbarthol

**Cyllid**

Cyllid o **75%** gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu'r **25%** sy'n weddill

#### Cronfa Graidd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

**I ariannu prosiectau yn unol â modelau gofal Llywodraeth Cymru:**

- Datrysiadau sy'n seiliedig ar lety
- Gofal cymhleth yn nes at adref
- Gartref o'r ysbyty
- Hybu iechyd a llesiant emosiynol da
- Atal a chydlynu cymunedol
- Cefnogi teuluoedd

**Cyllid**

Cyllid o **100%** gan Lywodraeth Cymru

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

30 Fe ymatebodd ychydig yn llai na hanner aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (28) yn gadarnhaol i'r cwestiwn yn ein harolwg am y modd y mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cyd-fynd ag angen lleol. Fodd bynnag, roedd dros chwarter yr ymatebwyr yn teimlo'n fwy negyddol ynglŷn â sut y maent yn cyd-fynd â'i gilydd, ac fe roddodd chwarter ymateb niwtral (**Arddangosyn 6**).

**Arddangosyn 6: nifer yr ymatebwyr i'n harolwg sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae meysydd blaenoriaeth y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru'n cyd-fynd yn glir ag angen lleol'**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru o Aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, 2025

31 Mae rhai o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y siaradom ni gyda hwy'n camddeall ffocws Llywodraeth Cymru ar grwpiau poblogaeth sy'n cael blaenoriaeth ac fe ofynnon nhw am fwy o hyblygrwydd i ymateb i angen lleol. Roedd rhai partneriaid rhanbarthol eisoes yn ariannu mentrau ar gyfer rhai grwpiau poblogaeth â chyllid nad yw'n dod trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Roeddent hwy'n meddwl, yn anghywir, nad ydynt yn gallu symud cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer un grŵp poblogaeth i ddiwallu anghenion grwpiau eraill.

32 Gallai peth o’r gamddealltwriaeth am ddyrannu i grwpiau poblogaeth sy’n cael blaenoriaeth fod yn deillio o gamddehongli gwybodaeth yn llythyrau dyrannu Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, roedd llythyrau 2022-23 yn nodi ei disgwyliad, ar gyfer cronfa graidd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol:

- y byddai o leiaf 5% yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gofalwyr di-dâl (yn ychwanegol at y gronfa wedi’i chlustnodi);
- y byddai o leiaf 20% yn cael ei wario ar ddarparu trwy bartneriaid sy’n dwyn manteision economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ehangach; ac
- y byddai o leiaf £20 miliwn yn cael ei wario ledled Cymru mewn gwasanaethau i gefnogi plant sydd wedi bod mewn gofal neu sydd ar ffiniau gofal.

## Integreiddio ffrydiau ariannu perthnasol

33 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddylunio ei Chronfa Integreiddio Rhanbarthol er mwyn integreiddio prosesau ar gyfer ffrydiau ariannu presennol yn well mewn un system. Fe gyfunodd nifer o ffrydiau ariannu unigol, gan ddarparu dyraniadau wedi’u clustnodi yn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (gweler **Arddangosyn 5**). Fe ddyluniodd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, y Gronfa Tai â Gofal a’r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso fel rhaglenni cyflenwol i ategu ei weledigaeth dymor hwy ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig.

34 Rhwng 2021-22 a 2026-27, bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael mynediad at £1.45 biliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a hwnnw’n rhychwantu naw o feysydd rhaglen (gweler **Arddangosyn 17**, **Atodiad 2**). Dechreuodd y rhan fwyaf o’r cronfeydd hyn yr un pryd â’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol neu maent yn ei rhagddyddio. Fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru ffrydiau ariannu byrdymor eraill ar ôl y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gan gynnwys cyllid Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Ymhellach, Yn Gyflymach, a’r Her 50 diwrnod.

35 Fe wnaeth y gwerthusiad cenedlaethol blwyddyn un o’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ddisgrifio’r ‘cyd-destun polisi sy’n newid yn gyflym’ fel her i integreiddio’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol â rhaglenni ariannu perthnasol eraill. Fe wnaeth tîm Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru gydnabod yr her hon o’r dechrau ac mae wedi cymryd camau i ymdrin â hi.

36 Mae tîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr polisi ar gyfer rhaglenni perthnasol i wella integreiddio a datblygu cynlluniau ar gyfer y System Gofal Cymunedol Integredig.[4] Mae'r swyddogion hyn hefyd yn eistedd ar Fwrdd Sicrwydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol lle gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o rannu gwybodaeth.

37 Wrth i raglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol esblygu, mae Llywodraeth Cymru wedi integreiddio'r broses o adrodd ar ffrydiau ariannu allweddol yn well. Er enghraifft, roedd adroddiad blynyddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer 2023-24 yn adroddiad ar gynnydd neu'n '[ddatganiad sefyllfa](#)' ar y cyd ar gyfer ei Chronfa Tai â Gofal, ei Chronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Gofal a'i Chronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae'r datganiad sefyllfa yn disgrifio'r cynnydd tuag at greu'r System Gofal Cymunedol Integredig hefyd.

38 Roedd gan ychydig dros hanner yr aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (36) a ymatebodd i'n harolwg farn gadarnhaol ynglŷn â hyblygrwydd meini prawf ariannu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (**Arddangosyn 7**) ac roedd 27 yn ei chael hi'n hawdd cyfuno'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol â ffrydiau ariannu eraill (**Arddangosyn 8**). Fodd bynnag, mae aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a thîm Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru'n cydnabod, ers dechrau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, bod cyllid a ddyrannwyd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi dod yn fwyfwy cymhleth.

4 Gan gynnwys y Gronfa Tai â Gofal, Rhaglen y Chwe Nod, a'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol

**Arddangosyn 7: nifer yr ymatebwyr i'n harolwg sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae meini prawf ariannu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ddigon hyblyg i ategu prosesau penderfynu lleol'**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru o Aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, 2025

**Arddangosyn 8: nifer yr ymatebwyr i'n harolwg sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud hi'n hawdd cyfuno'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol â ffrydiau ariannu eraill'**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru o Aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, 2025

39 Roedd aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y siaradom ni gyda hwy'n pryderu ynghylch cymhlethdod ffrydiau ariannu newydd megis cronfeydd yr Her 50 diwrnod ac Ymhellach, Yn Gyflymach a'r fframiau amser byr sydd weithiau'n gysylltiedig â hwy. Fe ddwedon nhw wrthym fod ymateb i ofynion rhai mentrau (yn enwedig yr Her 50 diwrnod) yn rhoi pwysau ar staff ac aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac yn dargyfeirio adnoddau oddi wrth agweddau eraill ar ddarparu.

40 Mae llythyrau dyrannu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn 2024-25 yn rhestru manylion rhai cronfeydd eraill i ddarparu trosolwg o gyllid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.[5] Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n dal i anfon llythyrau ar wahân ar gyfer y rhaglenni hynny yn ychwanegol at ei llythyrau ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Hefyd, nid yw llythyrau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn rhestru holl gronfeydd perthnasol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gall nifer y llythyrau ynglŷn â chyllid fod yn cyfrannu at ganfyddiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol bod trefniadau ariannu'n rhy gymhleth.

41 Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, y Gronfa Tai â Gofal a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso i gyd yn dod i ben yn 2027, gan gyflwyno cyfle i fyfyrio ynghylch trefniadau yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau ar y broses fyfyrio hon ac mae wedi sefydlu gweithgor traws-sector i archwilio ffyrdd o sicrhau bod buddsoddi a chyflawni'n cyd-fynd â'i gilydd mewn meysydd perthnasol. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae arni eisiau integreiddio ffrydiau ariannu'n well trwy ei System Gofal Cymunedol Integredig, gan gydnabod bod penderfyniadau ynglŷn â buddsoddi yn y dyfodol yn dibynnu ar flaenoriaethau gwleidyddol ar ôl etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.

5 Mae'r llythyrau'n rhestru dyraniadau'r cronfeydd Ymhellach, Yn Gyflymach, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.

## Mae Llywodraeth Cymru'n adnabod ac yn rhannu arfer da, ond nid yw agweddau ar y dull yn glir i rai o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

42 Ni chanfu ein hadroddiad yn 2019 ryw lawer o dystiolaeth fod prosiectau a gyllidwyd â'r Gronfa Gofal Integredig wedi cael eu 'prif-ffrydio' fel rhan o ddarparu gwasanaethau craidd mewn sefydliadau partner. Fe wnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi mwy o gefnogaeth ar gyfer cyfleoedd i ddysgu ar y cyd ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddulliau o reoli'r gronfa a goresgyn heriau i brif-ffrydio. Dengys **Arddangosyn 9** fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ein hargymhelliad ynghylch cefnogi dysgu ar y cyd ar waith yn llawn.

**Arddangosyn 9: rhoi argymhelliad 6 o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2019 ar waith gan Lywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 6**

Fe wnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru'n rhoi mwy o gefnogaeth ar gyfer cyfleoedd i ddysgu ar y cyd ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- ddulliau o reoli'r gronfa, yng nghyd-destun y dulliau amrywiol a nodir yn yr adroddiad hwn (**wedi'i gwblhau**); a
- goresgyn yr heriau rhag prif-ffrydio prosiectau llwyddiannus (**wedi'i gwblhau**).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru


43 Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i rannu gwersi. Mae ei threfniadau ffurfiol yn cynnwys:

- casglu a rhannu gwersi yn ystod ei threfniadau monitro rheolaidd (gweler **paragraff 59**);
- amlygu arfer da yn ei hadroddiadau blynyddol ar gynnydd;
- cynadleddau i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i rannu gwersi; a hefyd
- 'cymunedau ymarfer' i rannu gwersi ar y modelau gofal cenedlaethol i oleuo prosiectau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a datblygiad y System Gofal Cymunedol Integredig. Rhwydweithiau o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yw'r cymunedau, a sefydlwyd yn 2022.

44 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn rhannu gwersi'n anffurfiol trwy'r rhwydwaith o arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Canfuom nifer o enghreifftiau lle gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru gydnabod cryfderau mewn un rhanbarth a gweithio gyda'r rhanbarth hwnnw i rannu enghreifftiau ymhlith arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

45 Er gwaethaf yr enghreifftiau cadarnhaol a adnabuwyd gennym, nid oedd ymatebion aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn glir a oedd y cyfleoedd yr oedd Llywodraeth Cymru'n eu darparu'n cefnogi dysgu ar y cyd (**Arddangosyn 10**). Dywedodd un aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mai datblygiad diweddar oedd cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfleoedd i ddysgu ar y cyd. Fe wnaeth un arall ddisgrifio'r amser cyfyngedig i ddysgu oddi wrth eraill.

**Arddangosyn 10: nifer yr ymatebwyr i'n harolwg sy'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyfleoedd i ddysgu ar y cyd am brosiectau eraill a ariannwyd gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol'**




Ffynhonnell: Arolwg Archwilio Cymru o Aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, 2025

46 Fe wnaeth aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol y siaradom ni gyda hwy egluro bod gwersi'n cael eu rhannu'n rheolaidd rhwng rhanbarthau, ond nad yw'r broses honno wastad yn cael ei harwain gan Lywodraeth Cymru. Mae arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi gwneud eu trefniadau eu hunain i rannu gwersi trwy gyfarfodydd wythnosol, y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi anogaeth ar ei gyfer fel ffordd o rannu arfer da yn rhagweithiol rhwng cymheiriaid. Yn gyffredinol, fe wnaeth aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ganmol ymgysylltiad cadarnhaol ac ymatebolrwydd tîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

47 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu chwe chymuned ymarfer i gefnogi cyfleoedd i ddysgu ar y cyd. Mae'r rhain yn rhannu gwersi, datblygiadau polisi ac yn hwyluso ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn sectorau perthnasol. Cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru fod rhai cymunedau ymarfer yn fwy effeithiol na'i gilydd o ran rhannu arfer da.

48 Roedd rhai o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y siaradom ni gyda hwy'n teimlo'n ddryslyd ynghylch diben y cymunedau ymarfer. Dywedodd arweinwyr rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrthym eu bod wedi rhoi'r gorau i fynychu cyfarfodydd am eu bod yn mynd â llawer o amser ac yn ddi-fudd. Canfu arolwg cenedlaethol blwyddyn tri o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fod yr aelodaeth darged yn aneglur ac fe gododd gwestiynau ynglŷn ag ehangder y gynrychiolaeth. Cydnabu hefyd nad yw amcanion y cymunedau ymarfer wastad yn eglur i randdeiliaid. Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn archwilio ffyrdd o wella effeithiolrwydd y cymunedau ymarfer, gan ddysgu o'r rhai sy'n gweithio'n dda.

## Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi rhoi cymorth i weithio mewn partneriaeth a gwella gwasanaethau ond ceir pryderon ynghylch trefniadau ariannu hirdymor

49 Mae aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a ymatebodd i'n harolwg yn amlwg yn gwerthfawrogi rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac fe ymatebon nhw'n gadarnhaol i gwestiynau ein harolwg am ei chyfraniad i weithio mewn partneriaeth ar lefel ranbarthol a darparu gwasanaethau cynaliadwy a gwell. Fe wnaeth ymatebwyr sylwadau am effaith y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol hefyd:

> Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol bellach yn allweddol i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, y mae llawer ohonynt wedi'u gwreiddio yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu erbyn hyn.
>
> Ymatebydd i'r arolwg ymhlith aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

> Byddai llawer o gynghorau a'r GIG yn dangos tystiolaeth gref bod y gronfa wedi galluogi gwerth ychwanegol cyson i drigolion.
>
> Ymatebydd i'r arolwg ymhlith aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

50 Fodd bynnag, oherwydd heriau ariannol ehangach fe wnaeth llawer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddisgrifio diffyg cynnydd wrth brif-ffrydio prosiectau llwyddiannus hefyd. Galwodd nifer o aelodau'r Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol am eglurder ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru'n disodli cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar ôl 2026-27, gan ddweud bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i ariannu gwasanaethau sydd bellach yn cael eu hystyried yn rhan o ddarpariaeth graidd.

> Fe gyflwynwyd prif-ffrydio ond nid yw i'w weld fel pe bai wedi digwydd yn ymarferol gan bod sefydliadau unigol yn wynebu her ariannol sylweddol.
>
> Ymatebydd i'r arolwg ymhlith aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

> Mae angen parhau â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'i chyfnerthu gan ei bod yn cael ei defnyddio i ariannu gwasanaethau craidd sydd bellach yn elfennau hanfodol o'r system iechyd a gofal. Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, bydd lleihau cyllid neu roi'r gorau i'w ddarparu'n arwain at gwtogi ar wasanaethau.
>
> Ymatebydd i'r arolwg ymhlith aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

51 Ceir heriau sylweddol sy’n gysylltiedig â phrif-ffrydio prosiectau i mewn i gyllidebau craidd. Serch hynny, mae sefydliadau partner o fewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyfrannu eu cyllid eu hunain i ategu dyraniadau Llywodraeth Cymru trwy’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gan ddefnyddio cyfuniad o arian parod ac adnoddau eraill.[6]

52 Darparodd partneriaid y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol £174.2 miliwn o gyllid cyfatebol dros dair blynedd gyntaf y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Dengys **Arddangosyn 11** fod cyfran y cyllid a ddarparwyd gan sefydliadau partner yn amrywio’n sylweddol fesul rhanbarth.[7] Yn arbennig, fe ddarparodd sefydliadau partner ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru lefelau uwch o lawer o’u cyllid eu hunain yn 2022-23 a 2023-24 na rhanbarthau eraill.

6 Megis staff, neu safleoedd nas ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

7 Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym y gallai peth o’r amrywiad hwn ymwneud â gwahaniaethau o ran sut y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn casglu gwybodaeth am gyllid cyfatebol. Mae’r swyddogion yn gweithio gyda’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wella ansawdd a chysondeb eu data.

**Arddangosyn 11: cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a ddarparwyd gan sefydliadau partner rhwng 2022-23 a 2024-25, mewn miliynau o bunnoedd ac fel canran o incwm Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar y cyfan (a ddangosir mewn cromfachau)**

| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | * | * | 6.2 (24%) |
| Cwm Taf Morgannwg | 6.1 (21%) | 5.6 (20%) | 5.0 (18%) |
| Gwent | 7.3 (21%) | 7.0 (20%) | 5.5 (17%) |
| Gogledd Cymru | 23.5 (42%) | 27.7 (46%) | 55.0 (63%) |
| Powys | 2.0 (24%) | 0.4 (6%) | 1.6 (19%) |
| Gorllewin Morgannwg | * | * | 6.2 (25%) |
| Gorllewin Cymru | 2.5 (12%) | 3.9 (17%) | 8.7 (32%) |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

Nodyn: *Ni ddarparodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a Gorllewin Morgannwg wybodaeth am gyllid a ddarparwyd gan eu sefydliadau partner yn 2022-23 a 2023-24.

53 Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn profi pwysau ariannol hefyd sy'n gysylltiedig â chyflawni prosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, yn enwedig costau staff cynyddol. Fe gafodd Llywodraeth Cymru wared ar yr elfen dapro o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gan gydnabod heriau prif-ffrydio (gweler **paragraff 18**). Nid yw wedi cynyddu cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gyfateb i chwyddiant.

54 Mae dyraniad Llywodraeth Cymru ar y cyfan i'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi cynyddu ychydig o £144.7 miliwn yn 2022-23 i fwy na £146 miliwn yn 2023-24 a 2024-25. Fodd bynnag, mewn termau real fe ostyngodd cyllid Llywodraeth Cymru 8% dros y tair blynedd.[8] Mae **Arddangosion 18 i 20** yn **Atodiad 2** yn darparu mwy o ddadansoddiad o wariant y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ôl math a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

8 Mae ffigyrau mewn termau real wedi'u haddasu i ystyried chwyddiant. Fe ddefnyddiom ni ddatchwyddyddion cynnyrch domestig gros Trysorlys EF yn ôl prisiau'r farchnad ac arian, Mehefin 2025.

# Goruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru

## Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wella ansawdd a chysondeb gwybodaeth fonitro'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

55 Yn 2019, fe ddisgrifiodd ein hadroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig wendidau yn nhrefniadau Llywodraeth Cymru i asesu effaith ei rhaglen ar y cyfan. Fe eglurodd fod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio offer a phrosesau gwahanol i fesur perfformiad ac yn ei chael hi'n anodd mesur canlyniadau prosiectau. Dengys **Arddangosyn 12** fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ein hargymhelliad ynghylch gwella'r modd y caiff prosiectau eu monitro ar waith yn llawn.

**Arddangosyn 12: rhoi argymhelliad 5 o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2019 ar waith gan Lywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 5**

Fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn:

- cytuno ar y mesurau canlyniadau allweddol y disgwylir iddynt gael eu bodloni, a'u monitro, ar gyfer y gwahanol grwpiau targed sy'n cael arian o'r gronfa. Lle bo modd, dylai'r mesurau hyn gydweddu â'r mesurau canlyniadau ehangach a bennir yn y fframweithiau canlyniadau cenedlaethol sydd eisoes ar waith (**wedi'i gwblhau**);
- egluro sut y mae'n defnyddio'r wybodaeth a gesglir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (**wedi'i gwblhau**); a
- symleiddio gofynion adrodd prosiectau refeniw a phrosiectau cyfalaf lle bo'n ymarferol gwneud hynny (**wedi'i gwblhau**).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Mesur canlyniadau ac effaith

56 Fe ddatblygodd Llywodraeth Cymru fframwaith canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a oedd yn nodi'n glir pa ganlyniadau ac egwyddorion yr oedd arni eisiau eu cyflawni ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach.[9] Darparodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar wahân i gynorthwyo Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddefnyddio'r fframwaith. Mae'r fframwaith yn gam cadarnhaol tuag at fesur effaith y gronfa, gyda ffocws ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chanlyniadau'r system (**Arddangosyn 13**). Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fireinio'r dull wrth i'r rhaglen fynd rhagddi gan gynnwys datblygu ffyrdd o fesur adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiad.

9 Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r fframwaith ar dudalen 42 ei chanllawiau ynghylch y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

**Arddangosyn 13: canlyniadau bwriadedig allweddol yn fframwaith canlyniadau Llywodraeth Cymru**

**System ar y cyfan**

| Canlyniadau | Egwyddorion | Canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn |
|---|---|---|
| • Mae pobl yn iachach ac yn hapusach<br>• Mae gwasanaethau iechyd a gofal yn well ac yn haws cael mynediad atynt<br>• Mae gwasanaethau iechyd a gofal yn arloesol ac yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf<br>• Mae staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael gofal ac yn gryf eu cymhelliant | • Mae egwyddorion cydgynhyrchu wedi'u gwreiddio yn nyluniad modelau gofal, y modd y'u darperir a'r broses o'u gwerthuso<br>• Mae modelau gofal yn ataliol ac yn darparu datrysiadau ymyrryd yn gynnar<br>• Mae llwybrau gofal yn eglur, yn deg ac yn hygyrch ar draws y grwpiau poblogaeth<br>• Mae modelau gofal yn dangos effaith y manteision y maent yn eu dwyn | • Mae pobl yn teimlo bod ganddynt fwy o allu i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddynt ac ar eu cyfer<br>• Mae gan bobl fwy o lais a rheolaeth dros eu hanghenion gofal a chymorth<br>• Mae gan bobl fwy o ymwybyddiaeth o ba wasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael ac sy'n lleol iddynt<br>• Mae gan bobl fynediad gwell at ofal a chymorth gartref neu'n agos at adref |

Dau ganlyniad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pob model gofal. Er enghraifft, o dan 'datrysiadau sy'n seiliedig ar lety', y canlyniadau yw:

- mae pobl yn ymwneud yn fwy â dylunio llety i ddiwallu eu hanghenion; ac
- mae gan bobl fwy o ddewis dros ble y maent yn byw a chyda phwy

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

57 Mae gan Lywodraeth Cymru drefniadau gwahanol i fesur effaith ei Chronfa Tai â Gofal. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn nodi allbynnau a chanlyniadau bwriadedig ar gyfer prosiectau unigol yn eu priod gynlluniau buddsoddi cyfalaf 10 mlynedd. Mae Tîm Iechyd a Thai Llywodraeth Cymru'n monitro'r modd y cyflawnir y cynlluniau bob chwe mis.

## Trefniadau monitro'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

58 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed i ddatblygu trefniadau monitro sy'n darparu gwybodaeth gadarn ar gyfer goruchwylio ei buddsoddiad yn effeithiol. Mae hefyd yn darparu £750,000 yn flynyddol i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w cynorthwyo i reoli'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gan gynnwys trefniadau adrodd (gweler **paragraff 29**).

59 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu amserlen fonitro eglur ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn seiliedig ar:

- ffurflenni cyllid chwarterol sy'n nodi gwariant rhagamcanol a gwirioneddol, a'r modd y cyflawnwyd prosiectau hyd yma, gan nodi'r risgiau i gyflawni prosiectau yn chwarteri dau a phedwar; ac
- adroddiadau chwe misol ar yr effaith sy'n dangos cynnydd gan ddefnyddio fframwaith canlyniadau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, risgiau, a gwersi o brosiectau.

60 Mae gan dîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol drefniadau da i graffu ar adroddiadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyllid ac effaith a chytuno mewn cyfarfodydd chwarterol gydag arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae swyddogion yn ystyried cynlluniau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i reoli gorwariannau neu danwariannau prosiectau ac mae ganddynt drefniadau eglur i drafod ar drosglwyddo cyllid rhwng prosiectau.

61 Dywedodd swyddogion wrthym ni eu bod yn wreiddiol wedi bwriadu cynnwys 'hap-wiriadau' rheolaidd ar linellau gwariant unigol yn yr adroddiadau cyllid i wirio bod cyllid a ddyrennir trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei wario'n briodol. Ar adeg ein hadolygiad ni, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi datblygu trefniadau ar gyfer y gwiriadau hynny sydd wedi'u bwriadu i gael eu cyflawni gan ei swyddogaeth archwilio mewnol.

62 Ar gyfer y Gronfa Tai â Gofal, mae Tîm Iechyd a Thai Llywodraeth Cymru'n trafod perfformiad gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn cyfarfodydd misol gydag arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae trafodaethau'n canolbwyntio ar gyflawni, cyllid, a risgiau'r prosiectau, sy'n bwydo i mewn i adolygiadau chwe misol o gynnydd gyda Llywodraeth Cymru.

63 Fe weithiodd Llywodraeth Cymru gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu offer monitro yn barod ar gyfer cyflwyno'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac mae wedi parhau i weithio gyda hwy i fireinio a datblygu offer newydd trwy gydol y rhaglen. Canfuom hefyd enghreifftiau o Lywodraeth Cymru'n rhannu prosesau monitro da a ganfuwyd mewn un Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i wella dulliau mewn rhanbarthau eraill.

64 Mae tîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi adrodd yn ffurfiol ar risg sy'n gysylltiedig â gwybodaeth fonitro o ansawdd gwael gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar y log risgiau y mae'n ei rannu gyda Bwrdd Sicrwydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. I liniaru'r risg, mae Llywodraeth Cymru'n darparu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, templedi adroddiadau a chymorth trwy gyfarfodydd monitro rheolaidd. Mae ganddi hefyd broses uwchgyfeirio ffurfiol ar gyfer achosion o gyflwyno'n hwyr. Mae'r camau gweithredu hynny wedi gostwng y sgôr gweddillol ar y log risgiau, ac mae Llywodraeth Cymru'n adolygu'r risg bob chwe mis.

65 Canfuom fod gofynion monitro Llywodraeth Cymru'n eglur ac yn gymesur. Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a ymatebodd i'n harolwg ni'n ei chael hi'n hawdd darparu'r math o wybodaeth fonitro y mae Llywodraeth Cymru'n gofyn amdani. Dywedodd arweinwyr nifer o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrthym ni fod trefniadau monitro'n faich gweinyddol, gan olygu'n aml bod angen hyfforddi staff. Roedd rhai'n defnyddio prosesau monitro cyfochrog lle mae gofynion Llywodraeth Cymru'n wahanol i rai sefydliadau partner y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd arweinwyr rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn teimlo rhwystredigaeth bod Llywodraeth Cymru'n gofyn am wybodaeth sydd ganddi'n barod, o wybodaeth fonitro flaenorol ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol neu o raglenni eraill.

“

Mae'r gofynion adrodd trwy dempledi'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn sylweddol, ac nid yw'r graddfeydd amser wastad yn realistig, yn enwedig wrth gasglu gwybodaeth gan sefydliadau sy'n cael comisiynau gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Ymatebydd i'r arolwg ymhlith aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

“

Mae ceisiadau am ddata y mae gan Lywodraeth Cymru eisoes fynediad ato'n creu rhwystredigaeth – yn enwedig gan bod gan wahanol asiantaethau wahanol systemau ac nad ydym yn rhannu data mewn ffordd a fyddai'n ategu cynllunio strategol ac integreiddio.

Ymatebydd i'r arolwg ymhlith aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

66 Dywedodd llawer o arweinwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod templed adrodd ariannol Llywodraeth Cymru'n anodd i'w ddefnyddio. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod cyfleoedd i wella'r templed ac maent yn gweithio gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ymdrin â hynny.

67 Er gwaethaf eu pryderon ynghylch ymateb i ofynion monitro Llywodraeth Cymru, disgrifiodd y rhan fwyaf o arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol welliannau sylweddol mewn gofynion monitro yn 2024-25. Eglurodd un fod gofynion adrodd wedi lleihau o oddeutu 500 o dudalennau ym mlwyddyn un y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i oddeutu 200. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod hwy wedi bod yn hyderus i newid i fonitro 'llai manwl' o 2023-24 ymlaen oherwydd bod cryfder gwybodaeth am berfformiad y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi gwella'n sylweddol.

68 Roedd barn yr aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol y siaradom ni gyda hwy ynglŷn â lefel yr adborth y maent yn ei gael gan Lywodraeth Cymru ar yr wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn amrywio. Fe wnaeth rhai ganmol yr adborth eglur a rheolaidd tra bo eraill yn teimlo y byddent yn cyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ond yn peidio â chael unrhyw adborth gan swyddogion. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod yn darparu adborth cadarn trwy'r cyfarfodydd chwarterol gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac mewn adroddiad 'cerdyn sgorio' blynyddol. Nid yw holl aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cynnwys yn y cyfarfodydd hyn, felly ceir posibilrwydd nad yw'r holl aelodau'n gweld adborth.

## Trefniadau adrodd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

69 Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gynnydd o ran cyflawni'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar ei gwefan. Fe wnaeth yr adroddiad cyntaf (2022-23) nodi'r dyraniadau cyllid, nifer y prosiectau a disgrifiad o allbynnau a chanlyniadau prosiectau allweddol ar gyfer pob rhanbarth.

70 Erbyn ei hail flwyddyn (2023-24), roedd proses Llywodraeth Cymru ar gyfer adrodd ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn fwy soffistigedig, a hithau'n cyhoeddi rhai mesurau perfformiad o'r fframwaith canlyniadau (gweler **paragraff 56**). Roedd yr adroddiad yn nodi gwybodaeth yn glir ac yn syml gyda mesurau allbynnau 'faint wnaethom ni' a mesurau canlyniadau 'y gwahaniaeth a wnaethom ni i bobl'. Fe barhaodd Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r dull hwn ar gyfer ei hadroddiad trydydd blwyddyn (2024-25) (**Arddangosyn 14**).

**Arddangosyn 14: allbynnau a chanlyniadau o adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer 2024-25**

## Allbynnau

Mae **747,953** o unigolion wedi cael mynediad at brosiectau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn 2024-25

Roedd **249,455** yn cael mynediad at y prosiectau am y tro cyntaf

Fe wnaed **1,620,654** o gysylltiadau (gan gyfrif cysylltiadau lluosog ar gyfer pob unigolyn)

## Canlyniadau

Roedd **213,091** o unigolion yn teimlo'n llai ynysig

Roedd **231,547** o unigolion yn cynnal neu'n gwella eu hiechyd a'u llesiant emosiynol

Roedd **175,953** o unigolion yn teimlo eu bod yn gallu cael dylanwad ar wneud penderfyniadau a oedd yn effeithio arnynt

Mae **161,797** o unigolion yn teimlo'n fwy hyderus wrth gael mynediad at wasanaethau yn dilyn cymorth gan y prosiect

Mae annibyniaeth **207,931** o unigolion wedi gwella neu aros yr un fath ar ôl cymorth gan brosiect

Mae **181,922** o unigolion wedi cael cymorth sydd wedi atal lefel eu hanghenion rhag dwysáu

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth yn adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru 2024-25

## Mae Bwrdd Sicrwydd Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru'n craffu'n dda, gan gynnwys her o'r tu allan i dîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

71 Yn 2019, canfu ein hadroddiad ar y Gronfa Gofal Integredig fod angen i Lywodraeth Cymru gryfhau goruchwyliaeth ganolog ar y gronfa. Roedd hefyd yn disgrifio effaith capasiti staff cyfyngedig Llywodraeth Cymru i ategu goruchwyliaeth reolaidd ac amserol. Dengys **Arddangosyn 15** fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ein hargymhelliad i gryfhau ei threfniadau bwrdd prosiect ar waith yn llawn.

**Arddangosyn 15: rhoi argymhelliad 3 o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2019 ar waith gan Lywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 3**

Fe wnaethom argymell y dylai Llywodraeth Cymru gryfhau ei threfniadau llywodraethu ar gyfer y gronfa ymhellach trwy adolygu aelodaeth ei bwrdd prosiect i gynnwys cynrychiolaeth o'r tu allan i'r adrannau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa a hynny i roi rhywfaint o her annibynnol (**wedi'i gwblhau**).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

72 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'n hargymhelliad trwy ymgorffori her annibynnol ym Mwrdd Sicrwydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae gan y Bwrdd aelodaeth eang gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cynrychioli iechyd, gofal cymdeithasol, a thai, ac o Gomisiwn Bevan.

73 Mae cylch gorchwyl y Bwrdd yn eglur, ac mae tîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ategu goruchwyliaeth gan y Bwrdd yn effeithiol â gwybodaeth eglur a rheolaidd am feysydd perthnasol. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal sesiynau 'adolygiad dwfn' buddiol sy'n canolbwyntio ar destunau penodol a ategir gan wybodaeth berthnasol gan dîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Er enghraifft, ym mis Chwefror 2025 fe gynhaliodd adolygiad dwfn o gynnydd tuag at ddatblygu'r System Gofal Cymunedol Integredig.

74 Fe wnaethom adnabod rhai mân feysydd ar gyfer gwella yn yr wybodaeth y mae tîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ei rhannu ar gyfer goruchwyliaeth gan y Bwrdd. Mae'r tîm yn darparu crynodebau ar lafar o adroddiadau ariannol ac adroddiadau ar effaith ond fe allai ddarparu mwy o eglurder yn ei adroddiadau ar gyllid ynghylch amrywiant yn y gwariant yn erbyn rhagolygon diwedd blwyddyn. Gallai hefyd ddadansoddi'r wybodaeth a gyflwynir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn eu ffurflenni cyllid chwarterol i ddeall cynnydd ar y cyfan o ran 'prif-ffrydio' prosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

75 Roedd bwlch o 10 mis ym mynychder cyfarfodydd y Bwrdd o ganlyniad i swyddi staff gwag. Fe ailddechreuodd cyfarfodydd ym mis Awst 2024 pan ymgymerodd Pennaeth newydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol â'i swydd. Gwelsom graffu da ar wybodaeth am berfformiad a gwybodaeth ariannol gan aelodau'r Bwrdd y tu allan i dîm y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Gwelsom hefyd enghreifftiau o'r Bwrdd yn gweithredu fel fforwm i swyddogion rannu gwybodaeth a syniadau ar draws gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru.

76 Ym mis Mehefin 2025, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru drefniadau archwilio mewnol i ddarparu sicrwydd ar gyfer Cadeirydd Bwrdd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch effeithiolrwydd prosesau i oruchwylio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Mae tîm archwilio mewnol Llywodraeth Cymru'n rhannu arsylwadau chwarterol gyda Phwyllgor Archwilio a Risg Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru ac, yn fwy ffurfiol, mewn adroddiad blynyddol. [10]

77 Mae Bwrdd Cronfa Tai â Gofal Llywodraeth Cymru'n goruchwylio gwaith i gyflawni ei rhaglen Tai â Gofal. Mae'r Bwrdd i fod i gwrdd yn chwarterol ond ar adeg ein hadolygiad ni nid oedd wedi cwrdd am flwyddyn oherwydd swyddi staff gwag. Yn ystod y cyfnod hwn, fe barhaodd panel y Gronfa Tai â Gofal i gwrdd i gymeradwyo ceisiadau am gyllid ond ni ddarparodd oruchwyliaeth gyffredinol ar y rhaglen. Bu arweinydd y rhaglen yn cwrdd yn rheolaidd â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cartrefi a Lleoedd hefyd i reoli'r bwlch mewn goruchwyliaeth. Fe ailddechreuodd cyfarfodydd y Bwrdd o fis Hydref 2025.

10 O fis Gorffennaf 2025 ymlaen, Bwrdd Sicrwydd Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar oedd y Pwyllgor.

# Ceir gwendidau o hyd yng ngoruchwyliaeth byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar weithgarwch Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a defnydd o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a dealltwriaeth Llywodraeth Cymru am yr oruchwyliaeth honno

## Statws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

78 Canfu ein hadroddiad ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn 2019 nad oedd rhyw lawer o graffu ar weithgarwch Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Roedd diffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol ar draws y sefydliadau hyn hefyd am sut yr oedd y gronfa'n cael ei defnyddio. Fe wnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrff y GIG ac awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau craffu priodol ar waith ar gyfer penderfyniadau a wneir gan y Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol ar ran y cyrff hynny. Dengys **Arddangosyn 16** nad yw Llywodraeth Cymru wedi mynd yn ddigon pell i roi ein hargymhelliad i wella trefniadau llywodraethu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar waith.

**Arddangosyn 16: rhoi argymhelliad 4 o'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2019 ar waith gan Lywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 4**

Fe wnaethom argymell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chyrff y GIG ac awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau craffu priodol ar waith ar gyfer penderfyniadau y mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn eu gwneud ar ran y cyrff hynny (**wedi'i gwblhau'n rhannol**).

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

79 Fe wnaeth byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn ymateb i Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015.[11] Cyrff llywodraethu statudol yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n cyfyngu ar eu swyddogaethau. Yn arbennig, ni allant gyflogi staff na dal cyllidebau.[12] Dim ond argymhellion y gallant eu gwneud, nid penderfyniadau. Mae'r penderfyniadau hynny'n gorwedd gyda'r partneriaid statudol a rhaid iddynt gael eu gwneud trwy weithdrefnau penderfynu cyfreithlon pob corff. Dim ond o fewn unrhyw awdurdod dirprwyedig y gall cynrychiolwyr y partneriaid hynny sy'n eistedd ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wneud penderfyniadau, ac fel arall rhaid iddynt geisio cymeradwyaeth eu Cabinet neu Fwrdd.

80 Yn 2021, fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei chynigion i wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau arferion gweithio mewn partneriaeth mewn Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Roedd y papur yn nodi ei chynnig i sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau cyfreithiol. Fodd bynnag, fe ddewisodd Llywodraeth Cymru beidio â newid Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn y ffordd yma mewn ymateb i adborth gan bartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chan aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Fe ddiwygiodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau statudol rhan 9 i eglurhau aelodaeth a threfniadau craffu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gweler **paragraff 83**).

## Craffu gan bartneriaid

81 Mae'r holl gyllid a ddyrennir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael ei ddarparu trwy ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru. Byrddau iechyd sy'n dal yr arian hwnnw ar ran Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

82 Mae'r cyfyngiad ar swyddogaethau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (gweler **paragraff 79**) yn golygu ei bod hi'n hanfodol bod gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau goruchwylio a llywodraethu cadarn. Rhaid iddynt graffu'n ddigonol ar weithgarwch Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r arian y mae byrddau iechyd yn ei ddal ar ran Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

11 Fe wnaeth Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â threfniadau partneriaeth rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

12 Mae staff Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cael eu cyflogi naill ai gan fyrddau iechyd neu gan awdurdodau lleol gan ddibynnu ar y trefniadau rhanbarthol. Gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r dyraniad blynyddol o £750,000 o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer costau staff er bod rhai o'r costau hynny wedyn yn cael eu hariannu gan gyrff partneriaeth.

83 Mae canllawiau statudol rhan 9 Llywodraeth Cymru'n nodi ei disgwyliadau y dylai cyrff partneriaeth fod wedi'u hargyhoeddi bod gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol drefniadau goruchwylio a llywodraethu effeithiol.[13] Hefyd, mae ei chanllawiau ynghylch y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol 'roi memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith, lle pennir y dulliau llywodraethiant, yr atebolrwydd a'r prosesau penderfynu, yn cynnwys trefniadau priodol a fydd yn galluogi cyrff sofran perthnasol i graffu ar benderfyniadau buddsoddi'. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwirio a yw Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cydymffurfio â'i gofyniad.

84 Mae gan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ryw fath o gylch gorchwyl sy'n nodi ei ddiben a'i gyfrifoldebau. Fodd bynnag, dim ond pedwar o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol oedd â memorandwm cyd-ddealltwriaeth. Nid oedd yr un o'r dogfennau hyn yn ddigon eglur ynglŷn â sut y bydd byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn craffu ar weithgarwch Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan gynnwys pa wybodaeth y byddant yn ei chael ac i ba fforwm y bydd yn mynd.

85 Er gwaethaf y bylchau hyn sy'n bodoli yn ôl pob golwg, roedd aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a ymatebodd i'n harolwg ni'n hyderus ar y cyfan bod gan eu sefydliad drefniadau craffu priodol i oruchwylio penderfyniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar eu rhan. Roedd y mwyafrif (41 o ymatebwyr) hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod gan eu sefydliad yr wybodaeth gywir i ddeall effaith prosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

86 Fe ddefnyddiom ni ein grwpiau ffocws gydag aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddeall yr ymatebion cadarnhaol hynny yng ngoleuni'r gwendidau llywodraethu a adnabuwyd gennym ni. Wrth archwilio'n fwy manwl, nid oedd hi'n glir i lawer o aelodau beth oedd trefniadau byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar gyfer craffu ar weithgarwch Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd rhai'n gallu enwi enghreifftiau unigol o graffu ar ddogfennau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng nghyfarfodydd cynghorau neu fyrddau iechyd. Fodd bynnag, nid oedd hi'n glir i'r un o'r aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol y siaradom ni gyda hwy pa wybodaeth sy'n mynd i'r cyrff hynny ac i ba fforymau y mae'n mynd.

13 O dan ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, rhaid i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol roi ystyriaeth i ganllawiau statudol rhan 9 Llywodraeth Cymru. Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn wedi'i diweddaru o'r canllawiau ym mis Ebrill 2025.

87 Dywedodd rhai aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrthym fod cryn dipyn o amrywiad mewn trefniadau craffu yn yr awdurdodau lleol yn eu rhanbarth. Fe ddwedon nhw fod yr amrywiad yn ei gwneud hi'n anos byth deall rheoleidd-dra a ffocws gwaith craffu yn y sefydliadau hynny.

88 Fe gododd rhai o aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y siaradom ni gyda hwy gwestiynau ehangach am drefniadau llywodraethu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Roeddent yn cydnabod bod aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2021 i ddweud nad oedd arnynt eisiau dod yn endidau cyfreithiol. Fodd bynnag, fe glywsom enghreifftiau lle'r oedd cadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn anghysurus yn gwneud penderfyniadau ar ran cyrff partneriaeth.

## Goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ar graffu ar bartneriaethau

89 Cyrff partner sy'n gyfrifol am ddarparu trefniadau goruchwylio a llywodraethu effeithiol (gweler **paragraff 83**). Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol nodi'r trefniadau hynny yn eu hadroddiadau blynyddol. Mae swyddogion hefyd yn trafod cydymffurfiaeth â gofynion rhan 9 gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol mewn cyfarfodydd chwarterol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gwblhau hunanasesiadau o'u perfformiad bob dwy flynedd o 1 Ebrill 2025.[14] Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu hefyd.

90 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o gynlluniau peilot gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru rhwng 2021 a 2024 i ddatblygu'r dull hunanasesu. Ar gyfer y cynllun peilot, fe wahoddwyd holl aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gwblhau arolwg hunanasesu a ddyluniwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arolwg yn cynnwys cwestiwn penodol sy'n gofyn a oes gan sefydliadau partner Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drefniadau i sefydliadau gael eu dwyn i gyfrif am y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Wedyn fe gymerodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ran mewn gweithdai i drafod y canfyddiadau a datblygu camau gwella.

14 Un o ofynion fersiwn ddiwygiedig Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) yn 2024.

91 Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol nodi eu camau gweithredu i ymdrin â materion o'r hunanasesiadau peilot yn eu hadroddiadau blynyddol ar gyfer 2024-25. Ond nid yw wedi defnyddio canlyniadau'r hunanasesiadau o'r cynllun peilot na'r camau gweithredu a adnabuwyd i ddeall cryfderau a gwendidau trefniadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gallai wneud mwy i oruchwylio effeithiolrwydd gweithgarwch craffu gan bartneriaid Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan gynnwys gwirio bod memoranda cyd-ddealltwriaeth yn eu lle.

# Argymhellion

92 Rydym yn ailgyhoeddi dau o'n hargymhellion blaenorol, a ddiweddarwyd i adlewyrchu'r cyd-destun cyflawni cyfredol. Dim ond tri argymhelliad newydd yr ydym yn eu gwneud.

## Argymhellion wedi'u diweddaru o'n hadolygiad o'r Gronfa Gofal Integredig yn 2019

**A1** Dylai Llywodraeth Cymru wneud newidiadau pellach i symleiddio trefniadau ariannu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion poblogaethau lleol. Dylai wneud y canlynol:

**1.1** Gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wneud yn siŵr eu bod yn deall hyblygrwydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'u gallu i drosglwyddo arian heb ei glustnodi rhwng prosiectau lle mae hynny'n amlwg yn cyd-fynd ag angen lleol (**paragraffau 27 i 32**);

**1.2** Gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyfuno trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer gwahanol gronfeydd lle y bo'n bosibl (**paragraffau 33 i 41**); ac

**1.3** Cynnwys trefniadau yn ei System Gofal Cymunedol Integredig i ymgorffori ffrydiau ariannu newydd a allai ddod i'r amlwg ar ôl ei sefydlu (**paragraffau 33 i 41**).

**A2** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i sicrhau bod ganddynt drefniadau craffu priodol ar gyfer penderfyniadau dirprwyedig a wneir gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar ran y cyrff hynny. Dylai hyn gynnwys sicrhau bod gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol femorandwm cyd-ddealltwriaeth (**paragraffau 81 i 91**).

## Argymhellion newydd

**A3** Dylai Llywodraeth Cymru wella'r adroddiadau cyllid y mae'n eu darparu ar gyfer Bwrdd Sicrwydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gynnwys gwybodaeth am:

- yr amrywiant yng ngwariant Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn erbyn rhagolygon diwedd blwyddyn; a hefyd
- cynnydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol tuag at brif-ffrydio prosiectau llwyddiannus (**paragraff 74**).

**A4** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno hap-wiriadau ar wariant Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cael ei wario'n briodol (**paragraff 61**).

# Atodiadau

1 Ynglŷn â’n gwaith

2 Gwybodaeth ariannol

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Rydym wedi ystyried pa mor dda y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r argymhellion yn yr adolygiad a gynhaliwyd gennym yn 2019 trwy'r broses o gyflwyno ei Chronfa Integreiddio Rhanbarthol, ac i raddau llai helaeth y Gronfa Tai â Gofal. Nid ydym wedi adolygu'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rheoli'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.[15] Nid aethom ati i werthuso effaith y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol nac i ystyried pwyntiau ehangach y tu hwnt i'n hargymhellion yn 2019.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ganolbwyntiodd ein harchwiliad ar bedwar cwestiwn penodol:

- A oes gan Lywodraeth Cymru ddull strategol cydlynus o ddarparu cyllid iechyd, gofal cymdeithasol a thai integredig trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol?
- A oes gan Lywodraeth Cymru drefniadau priodol i oruchwylio'r modd y cyflawnir ei Chronfa Integreiddio Rhanbarthol?
- A yw Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda cyrff y GIG ac awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau priodol i graffu ar benderfyniadau a wneir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol?
- A yw Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod arfer da'n cael ei rannu ar draws rhanbarthau?

15 Fe wnaethom adolygu agweddau ar y Gronfa fel un o'n pum astudiaeth achos i oleuo ein hadroddiad ym mis Mai 2025 ar y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

## Meini prawf

Wrth gasglu tystiolaeth yn erbyn y cwestiynau uchod, roedd arnom eisiau gweld bod Llywodraeth Cymru'n dangos ei bod wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig o ran rhoi'r argymhellion archwilio a wnaed gennym yn 2019 ar waith i ymdrin â'r materion a'r pryderon a adnabuwyd yn yr archwiliad gwreiddiol.

## Dulliau

Fe wnaethom ein gwaith maes yn ystod mis Ebrill a mis Gorffennaf 2025.

Fe ddefnyddiom ni'r dulliau canlynol:

- Adolygiad o ddogfennau Llywodraeth Cymru sy'n dangos amseroldeb prosesau penderfynu; canllawiau ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a ffrydiau ariannu cysylltiedig; gwybodaeth fonitro am gyflawni'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gan gynnwys adroddiadau cynnydd ar allbynnau a chanlyniadau cyflawni; papurau bwrdd prosiect y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol; a gwybodaeth sy'n dangos sut y caiff arfer da ei adnabod a'i rannu.
- Adolygiad o rai o ddogfennau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gan gynnwys y cylchoedd gorchwyl, memoranda cyd-ddealltwriaeth a'u trefniadau craffu.
- Dadansoddiad ariannol lefel-uchel o wariant Llywodraeth Cymru hyd yma trwy'r Gronfa Gofal Integredig, y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.
- Cyfweliadau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli a goruchwylio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a chronfeydd tebyg sy'n gysylltiedig â rhaglenni cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Ofal a Gynlluniwyd, Gofal Brys ac Argyfwng a Gofal Sylfaenol.
- Grwpiau ffocws sy'n cynnwys holl arweinwyr a chadeiryddion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru.
- Arolwg ar-lein o bob un o 196 o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a gafodd gyfanswm o 63 o ymatebion. Roedd yr arolwg ar agor ar gyfer ymatebion rhwng 2 Mai 2025 ac 14 Gorffennaf 2025.
- Arsylwi ar un o gyfarfodydd Bwrdd Sicrwydd Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru o amryw gefndiroedd i ddarparu goruchwyliaeth ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

# 2 Gwybodaeth ariannol

Mae **Arddangosyn 17** yn dangos holl ffrydiau ariannu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd wedi bod ar gael rhwng 2021-22 a 2026-27. Mae **Arddangosion 18** i **20** yn nodi gwariant y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ôl math a rhwng 2022-23 a 2024-25 fesul Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi dadansoddiad manwl o wariant Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar draws grwpiau poblogaeth yn ei hadroddiadau blynyddol. Mae **Arddangosion 21** a **22** yn dangos gwariant y Gronfa Tai â Gofal rhwng 2022-23 a 2024-25 ac fesul Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

**Arddangosyn 17: Ffrydiau ariannu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sydd wedi bod ar gael yn y cyfnod rhwng 2021-22 a 2026-27**


| Rhaglen ariannu | Gwerth | Hyd | Ffocws |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso | £320 miliwn | 2022-23 i 2026-27 | Datblygu hybiau gofal cymunedol lleol i gydleoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng-flaen |
| Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso– cyllideb refeniw | £20 miliwn | 2022-23 i 2026-27 | Darparu adnoddau ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynllunio a chydlynu'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso yn strategol |
| Cronfa Tai â Gofal | £242 miliwn | 2022-23 i 2026-27 | Darparu tai a llety â chymorth i bobl agored i niwed ag anghenion gofal a chymorth |
| Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | £731 miliwn | 2022-23 i 2026-27 | Creu newid cynaliadwy yn y system trwy ddatblygu chwe model gofal integredig |
| Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng | £100 miliwn | 2021-22 i 2025-26 | Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy o ansawdd da mor agos at adref â phosibl, a gwella mynediad at wasanaethau a'r modd y cânt eu hintegreiddio |
| Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | £7.6 miliwn | 2022-23 i 2023-24 | Cyflawni blaenoriaethau gofal sylfaenol cenedlaethol |
| Cyllid Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | £5 miliwn | 2023-24 | Cynyddu mynediad at ofal cymunedol trwy gynyddu nifer y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a'r gweithwyr cymorth yn y GIG |

| Rhaglen ariannu | Gwerth | Hyd | Ffocws |
|---|---|---|---|
| Cyllid Ymhellach, Yn Gyflymach | £12 miliwn | 2023-24 | Mynd ‘ymhellach, yn gyflymach’ i gryfhau capasiti gofal cymunedol trwy ddatblygu system gofal cymunedol integredig i Gymru |
| Cyllid yr Her 50 diwrnod | £19 miliwn | 2024-25 | Helpu rhagor o bobl i ddychwelyd yn ddiogel o’r ysbyty a lleddfu pwysau yn y gaeaf ar y system iechyd a gofal cymdeithasol |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

Nodyn: Mae Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng yn cael ei gweinyddu gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru. Mae’r holl gronfeydd eraill yn y tabl yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru.

### Arddangosyn 18: gwariant y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ôl math, 2024-25




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru


Nodyn: Ni wnaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg a Gwent wario eu dyraniad cyllid seilwaith llawn o £750,000 yn 2024-25.

### Arddangosyn 19: gwariant craidd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ôl model gofal, 2024-25

| Model gofal | £ miliynau |
|---|---|
| Gartref o'r ysbyty | 35.6 |
| Atal a chydlynu cymunedol | 30.8 |
| Cefnogi teuluoedd | 22.7 |
| Gofal cymhleth yn nes at adref | 20.6 |
| Hybu iechyd a llesiant emosiynol da | 8.4 |
| Datrysiadau sy'n seiliedig ar lety | 2.1 |
| Costau rheoli prosiectau | 3.4 |


Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

**Arddangosyn 20: cyfanswm gwariant (craidd ac arall) y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fesul Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, rhwng 2022-23 a 2024-25**





Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

**Arddangosyn 21: dyraniadau Llywodraeth Cymru a gwariant Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer y Gronfa Tai â Gofal, rhwng 2022-23 a 2024-25**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

**Arddangosyn 22: gwariant y Gronfa Tai â Gofal fesul Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, rhwng 2022-23 a 2024-25**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru

# 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyllid Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | Cronfa gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2023-24. Roedd y gronfa wedi'i bwriadu i gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gweithwyr cymorth yn y gymuned. |
| Cyllid Ymhellach, Yn Gyflymach | Cronfa gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2023-24. Roedd y gronfa wedi'i bwriadu i ddwyn ynghyd fentrau iechyd a gofal cymdeithasol presennol i ddechrau datblygu system gofal cymunedol integredig. |
| Cronfa Tai â Gofal | Cronfa gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rhwng 2022-23 a 2026-27. Mae'r gronfa wedi'i bwriadu i ddarparu llety tai â chymorth i bobl agored i niwed ag anghenion gofal a chymorth. |
| System Gofal Cymunedol Integredig | Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol di-dor gartref neu mor agos at adref â phosibl trwy chwe model gofal. |
| Y Gronfa Gofal Integredig | Cronfa gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rhwng 2014-15 a 2021-22. Roedd y gronfa wedi'i bwriadu i hybu cydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, a'r trydydd sector a'r sector annibynnol i wella bywydau'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru'r gronfa yn 2014 fel y Gronfa Gofal Canolradd ac fe'i hail-enwodd yn Gronfa Gofal Integredig yn 2017. |
| Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso | Cronfa gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rhwng 2022-23 a 2026-27. Mae'r gronfa wedi'i bwriadu ar gyfer datblygu hybiau cymunedol lleol i gydleoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau rheng-flaen eraill. |
| Prif-ffrydio | Mae prif-ffrydio'n cyfeirio at y broses o wreiddio mentrau llwyddiannus, arloesol neu beilot fel rhan o arfer safonol ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| Perfformiad a Gwella GIG Cymru | Fe wnaeth Llywodraeth Cymru sefydlu Gweithrediaeth GIG Cymru ym mis Ebrill 2023. Fe newidiodd y Weithrediaeth ei henw yn 2025 i Perfformiad a Gwella GIG Cymru. Ei nod yw hybu gwelliannau yn ansawdd a diogelwch gofal. |

| | |
|---|---|
| Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol | Cronfa gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rhwng 2022-23 a 2026-27. Mae'r gronfa wedi'i bwriadu i gefnogi mentrau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar lefel ranbarthol. |
| Tapro | Dull a ddefnyddir mewn cyllid gofal cymdeithasol lle mae cymorth ariannol yn lleihau'n raddol dros amser. Mae'n galluogi prosiectau i'w cynnal eu hunain yn ariannol yn raddol, gan osgoi colli cymorth yn sydyn a hybu annibyniaeth ariannol. |
| Y Gronfa Trawsnewid | Cronfa gan Lywodraeth Cymru i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rhwng 2019-20 a 2021-22. Roedd y gronfa wedi'i bwriadu i wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy alluogi modelau llwyddiannus i dyfu a disodli rhai llai llwyddiannus neu rai a oedd wedi dyddio. |
| Rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng | Cronfa gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru rhwng 2021-22 a 2025-26. Mae'r gronfa wedi'i bwriadu i ddarparu gofal iechyd mor agos at adref â phosibl ac i wella mynediad at wasanaethau a'r modd y cânt eu hintegreiddio. |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Daeth y Ddeddf i rym yn 2016 yng Nghymru. Mae'n hybu llais, rheolaeth, atal, cydgynhyrchu a chydweithio, gan roi mwy o lais i unigolion a gofalwyr yn y cymorth y maent yn ei gael. |
| Cyllid yr Her 50 diwrnod | Cronfa anghylchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng ngaeaf 2024-25. Roedd y gronfa wedi'i bwriadu i helpu pobl i ddychwelyd yn ddiogel o'r ysbyty i leddfu pwysau'r gaeaf ar ysbytai. |
| Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | Fe sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn 2018 i roi ei gweledigaeth ar gyfer gofal sylfaenol ar waith. Mae'r rhaglen bellach yn cael ei harwain gan Perfformiad a Gwella GIG Cymru ac nid oes ganddi ffrwd ariannu sydd wedi'i neilltuo iddi mwyach. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y modd y mae'r sefydliadau hyn yn defnyddio adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.